Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# COVID-19:
# Trosolwg o ymateb GLlTEM

Gorffennaf 2020



**Mae cyfiawnder yn bwysig**

# Cynnwys

**Cefndir:** Yr her mae COVID-19 wedi'i gyflwyno ..... 2

Cam 1: Ymateb i argyfwng ..... 3

**Cam 2:** Adfer ein gweithrediadau yn gyflym ..... 4

Camau'r broses adfer ..... 5

Mae ein dull yn adlewyrchu'r heriau a wynebir ym mhob awdurdodaeth ..... 6

**Cam 3:** Cwblhau'r broses adfer ac edrych i'r dyfodol ..... 7

**Atodiad:** rhagor o wybodaeth ..... 8

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

# **Cefndir:** Yr her mae COVID-19 wedi'i gyflwyno

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cyflwyno heriau digynsail i'r system gyfiawnder. Roedd yn gofyn inni wneud newidiadau yn gyflym a sicrhau bod gwaith hanfodol yn parhau i gael ei wneud, a bydd rhaid i ni barhau i fod yn greadigol ac yn hyblyg trwy gydol ein proses adfer.

Mewn datganiadau cyhoeddus yng nghyfnod cynnar y pandemig, dywedodd yr Arglwydd Ganghellor, Y Gwir Anrhydeddus Robert Buckland CF AS, a'r Arglwydd Brif Ustus, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Burnett o Faldon, ei fod yn hollbwysig nad oedd y broses o weinyddu cyfiawnder yn cael ei hatal o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud a orfodwyd i'w reoli.

> *"Ein prif nod yw cynnal gwasanaeth i'r cyhoedd, sicrhau bod cynifer o wrandawiadau ym mhob awdurdodaeth yn mynd yn eu blaenau a pharhau i ddelio a'r holl faterion brys"*
> Datganiad gan yr Arglwydd Brif Ustus, 17 Mawrth 2020

> *"Er gwaethaf argyfwng iechyd y cyhoedd disgynsail, mae Prif Weinidog y DU a finnau yn benderfynol bod gan ein llysoedd yng Nghymru a Lloegr rôl hanfodol i'w chwarae a dylent barhau i eistedd."*
> Datganiad gan yr Arglwydd Ganghellor, 18 Mawrth 2020

Gwnaed ymdrechion anferthol ar draws y system gyfiawnder i sicrhau bod hyn yn digwydd, er gwaethaf y cyfyngiadau. O ganlyniad i'n hymdrechion, mae ein Llysoedd a'n Tribiwnlysoedd wedi gallu cynnal mwy o waith na'r mwyafrif o awdurdodaethau cymaradwy – roedd llawer ohonynt wedi cau i lawr bron yn gyfan gwbl oherwydd y cyfyngiadau symud.

Rydym ar ganol cyflawni Rhaglen Ddiwygio uchelgeisiol GLlTEM ("Y Rhaglen Ddiwygio"). Mae gweledigaeth y Rhaglen Diwygio wedi'i phennu mewn Datganiad ar y Cyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd - Trawsnewid ein System Gyfiawnder. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud gyda chyflwyno mynediad at wasanaethau ar-lein trwy'r Rhaglen Ddiwygio wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran cynnal gweithrediad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan alluogi i fwy o'n gwaith barhau i gael ei wneud yn y meysydd hynny lle mae'r Rhaglen Ddiwygio wedi datblygu ymhellach. Mae hyn hefyd yn amlygu gwerth ehangach y Rhaglen Ddiwygio o ran cefnogi gwasanaeth mwy cadarn a hyblyg.

Mae barnwyr, staff a'n partneriaid wedi dangos llawer o greadigrwydd a gwydnwch wrth ddylunio a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys cynnal gwrandawiadau o bell. Mae technoleg sain a fideo wedi chwarae rhan yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ers peth amser ac mae wedi bod o gymorth yn enwedig yn ystod achos y coronafeirws. Rydym wedi cynyddu capasiti ein systemau presennol ac wedi cyflwyno galluoedd newydd.

Mae adfer ein system yn y tymor byr a'r tymor canolig yr un mor bwysig â'n hymateb uniongyrchol i'r argyfwng. Mae'r heriau a gyflwynir wrth geisio gwneud hynny yr un mor anodd, a bydd ein gallu i gynnal gwrandawiadau a rheoli gwaith yn effeithiol trwy gydol y cyfnod Covid yn gwneud gwahaniaeth i bobl ledled y wlad sy'n rhan o achosion sydd angen cael eu gwrando fel y gellir gweinyddu cyfiawnder. Mae'r ddogfen hon yn pennu ein dull cyffredinol ar gyfer y broses adfer, a fydd yn gofyn inni barhau i gydweithio a bod yn hyblyg wrth inni wynebu gweithredu o fewn amgylchedd anrhagweladwy. Bwrdd GLlTEM fydd yn gyfrifol am lywodraethiant ein hymateb i Covid-19 a bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, yn unol â'u cyfrifoldebau statudol.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi ymrwymo i werthuso a dysgu gwersi ar sail y camau y byddwn yn eu cymryd. Bydd hyn yn ein galluogi i'w gwella tra bod y broses adfer yn mynd rhagddi ac hefyd yn rhoi cyfle inni ystyried pa fesurau i'w mabwysiadu yn ein cynlluniau hir dymor ar gyfer datblygu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Fel y bu hi erioed, bydd gweithredu er budd cyfiawnder yn ganolog i'n dull o weithio.

**Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o ymateb GLlTEM i COVID-19 – byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar y cynlluniau fesul awdurdodaeth yn yr wythnosau i ddod, a byddwn yn parhau i gyhoeddi data perfformiad Gwybodaeth Reoli (MI) yn rheolaidd.**

# **Cam 1:** Ymateb i argyfwng

Ym mis Mawrth a mis Ebrill bu inni gyflwyno amrywiaeth o fesurau i ddiogelu defnyddwyr y llys, barnwyr a staff ac i sicrhau bod gwaith hanfodol yn cael ei wneud.

- Bu inni gefnogi penderfyniadau barnwrol ynghylch **blaenoriaethu achosion** a mathau o achosion i sicrhau y gellir gwrando achosion brys a'r achosion pwysicaf. Yn y **llysoedd troseddol**, rhoddwyd blaenoriaeth i wrandawiadau yn ymwneud â'r ddalfa, cadw a mechnïaeth a cheisiadau brys am faterion fel terfysgaeth a cham-drin domestig.  Yn yr **awdurdodaethau sifil, teulu a'r tribiwnlysoedd**, roedd gwaith brys yn cynnwys ceisiadau i ohirio gwarantau meddiannu, gorchmynion gwahardd a gorchmynion yn ymwneud â materion gofal, herwgydio, amddiffyn mewn argyfwng a dyled, ac hefyd gwaith yng nghyswllt iechyd meddwl, mechnïaeth i fewnfudwyr a gwaith Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS).
- Ar ddiwedd mis Mawrth, cafodd **157 o adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys eu dethol fel rhai y byddai'n parhau i fod ar agor ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb hanfodol.** Roedd y 124 o adeiladau llys a thribiwnlys eraill un ai ar gau dros dro ("llysoedd gohiriedig") neu ar gau i'r cyhoedd ond ar agor ar gyfer barnwyr, staff a chynrychiolwyr asiantaethau oedd angen bod yn bresennol i gefnogi gwrandawiadau fideo/dros y ffôn ac i symud achosion yn eu blaenau heb gynnal gwrandawiadau ("llysoedd wedi'i staffio").
- Bu inni wella ein **technoleg sain a fideo** yn gyflym, gan alluogi barnwyr i gynnal llawer mwy o wrandawiadau o bell. Bu inni ychwanegu nodweddion newydd i'n pecyn *Skype for Business* i alluogi ei ddefnyddio ar gyfer gwrandawiadau,  cynyddu ein capasiti ar gyfer cynnal cynadleddau dros y ffôn gyda BTMeetMe a dechrau cyflwyno platfform fideo'r cwmwl (CVP).
- Trwy gydol y cyfnod hwn, mae **gwasanaethau wedi'u diwygio wedi parhau i weithredu ar-lein, yn cynnwys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS), y Siambr Mewnfudo a Lloches (IAC), Profiant, Ysgariadau a'r gwasanaeth Hawliadau Arian Sifil Ar-lein**, ar gyfer hawliadau hyd at £10,000. Rydym wedi cyflymu'r broses o ddiwygio'r IAC fel y gall 90% o apeliadau IAC gael eu cyflwyno a'u datrys ar-lein. Rydym hefyd wedi moderneiddio'r broses cymryd taliadau am ffioedd ac mewn rhai achosion wedi hepgor ffioedd i gefnogi mynediad at gyfiawnder.
- **Ystyriwyd bod holl weithwyr a chontractwyr rheng flaen GLlTEM yn weithwyr hanfodol.** Bu inni weithio'n gyflym i sicrhau bod yr holl staff a chontractwyr, yn enwedig y sawl mewn categorïau sy'n agored i niwed yn cael mynediad at yr wybodaeth a'r gefnogaeth iawn. Mae rhagor o liniaduron wedi cael eu harchebu i alluogi rhagor o'n staff i weithio o adra lle bo hyn yn bosibl ar gyfer y rôl maen nhw'n ei chyflawni yn unol â'r arweiniad gan y llywodraeth. Mae gweithio ar sail rota wedi cael ei rhoi ar waith fel y gall staff gadw pellter cymdeithasol yn y gwaith.
- Bu inni sefydlu **ffyrdd newydd i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid** i ategu trefniadau presennol. Cynhaliwyd fforymau rheolaidd gyda chyrff proffesiynol ym maes y gyfraith a chynrychiolwyr defnyddwyr cyhoeddus y llys ar-lein. Mae hyn wedi'i ategu gan ymgysylltu'n fwy rheolaidd a rhoi ffocws mwy pendant i'r ymgysylltu hyn.  Mae hyn wedi ein galluogi i gydweithio â phartneriaid ar draws y system gyfiawnder i fabwysiadau ffyrdd newydd o weithio.
- Rydym wedi gweithio gyda'r farnwriaeth i roi **cyfarwyddiadau ymarfer ar waith ynghyd â deddfwriaeth brys Deddf y Coronafeirws (2020)** sy'n sail i'n hymateb i'r argyfwng.

# **Cam 2:** Adfer ein gweithrediadau yn gyflym

Yn ein hymateb cychwynnol bu inni weithio gyda'r farnwriaeth i flaenoriaethu materion brys a'r materion pwysicaf. Rydym nawr yn gweithio i gynyddu nifer y gwrandawiadau a gynhelir ar draws yr holl awdurdodaethau gyda'r nod o ddychwelyd i'r niferoedd cyn Covid-19 ac yna cynyddu'r niferoedd hynny ymhellach ym mhob awdurdodaeth.

Mae'n amlwg na fyddwn yn gallu gweithio yn y ffordd 'arferol' tra bod y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol mewn lle: rhaid defnyddio nifer llai o ystafelloedd llys ac ystafelloedd tribiwnlys a ni ellir rhestru achosion mor effeithiol â'r arfer (oherwydd ni all ystad y llysoedd gynnal y lefelau o ddefnydd fodolai cyn Covid-19). Hefyd, ni all yr un nifer o staff weithio'n ddiogel yn eu lleoliadau arferol. Byddwn yn parhau i ddilyn yr arweiniad gan y llywodraeth ar faterion mewn perthynas â chadw pellter corfforol a chyfyngiadau eraill yn ein cynlluniau gweithredol a bydd newidiadau i'r arweiniad yn effeithio ar ba mor gyflym y gallwn adfer.

Felly, mae barnwyr, staff a defnyddwyr wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd wrth inni ddatblygu camau mwy radical y bydd rhaid inni eu gweithredu i allu adfer ein gweithrediadau a sicrhau bod pobl yn parhau i allu cael mynediad at gyfiawnder yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

**Rydym yn cynllunio amrywiaeth o fesurau ar draws awdurdodaethau, yn cynnwys:**

Ailagor yr holl lysoedd a thribiwnlysoedd sydd wedi bod ar gau i'r cyhoedd, yn unol ag arweiniad iechyd y cyhoedd, a sicrhau bod gennym ddigon o staff i gefnogi'r holl wrandawiadau yn yr adeilad llys a'r gwrandawiadau o bell. Byddwn yn ailagor y mwyafrif o'n safleoedd yn ystod mis Mehefin a bydd y gweddill yn cael eu hailagor ym mis Gorffennaf.

Adolygu a gweithredu mesurau i sicrhau ein bod yn cefnogi defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ystod yr achos COVID-19. Ein pedair blaenoriaeth yn hyn o beth yw: (1) Bod gan pobl sy'n agored i niwed y **gefnogaeth** mae'n nhw ei hangen i gael mynediad at y system gyfiawnder a chymryd rhan ynddi (2) Bod gwasanaethau yn **hygyrch** ar gyfer defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ystod yr achos COVID-19 (3) Cyfeirio pobl sy'n agored i niwed at wybodaeth mewn ffordd sy'n bodloni eu hanghenion (4) Coladu tystiolaeth ac **adnabod effeithiau COVID-19** ar ddefnyddwyr

Archwilio opsiynau ar gyfer **oriau gweithredu estynedig** i gynyddu capasiti

Defnyddio **adeiladau eraill fel llysoedd** i gynyddu capasiti

**Gosod sgriniau ac addasiadau eraill i'r dodrefn yn** ein hystad presennol

Cynyddu'r defnydd o **dechnoleg sain a fideo** i gynnal mwy o wrandawiadau a mathau newydd o wrandawiadau, yn amodol ar sicrhau bod hynny er budd cyfiawnder

Cyflwyno **Platfform Fideo'r Cwmwl (CVP)** yn ehangach a defnyddio offer newydd i wella ansawdd gwrandawiadau fideo

Darganfod ffyrdd newydd a mwy effeithiol i drefnu **rhestrau gwrandawiadau fideo**

Darparu **gliniaduron** i'n holl staff fel y gallant weithio'n hyblyg i gefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud ag achosion

Cefnogi barnwyr **i allu rhestru achosion mewn ffordd sy'n defnyddio'r gofodau sydd gennym i'r eithaf** fel y gallwn gynnal achosion yn ddiogel a gwneud y defnydd gorau posibl o farnwyr sy'n derbyn ffi

Cefnogi **Dulliau Amgen i Ddatrys Anghydfodau** ar gyfer achosion, lle bo'n briodol

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu opsiynau pellach a fydd yn ein galluogi i gynnal mwy o wrandawiadau tra bod y cyfyngiadau symud yn parhau i fod yn weithredol

# Camau'r broses adfer

| | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Yr hydref a thu hwnt |
|---|---|---|---|---|
| **Capasiti ffisegol** | Dechrau ailagor llysoedd wedi'u staffio a llysoedd gohiriedig | | | |
| | | Cwblhau ailagor yr holl lysoedd wedi'u staffio a llysoedd gohiriedig | | |
| | | Gosod sgriniau ac addasiadau eraill i'r dodrefn yn ein hystad presennol | | |
| | | Adolygu'r holl gapasiti sydd ar gael ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a gwneud y defnydd gorau posibl o'r gofodau ar gyfer gwrandawiadau ym mhob awdurdodaeth yn unol ag arweiniad iechyd y cyhoedd | | |
| | Gwneud arolwg o'r farchnad i chwilio am leoliadau ychwanegol i gynyddu capasiti | | | |
| | | | Dechrau gweithredu mewn rhai lleoliadau llys a thribiwnlys amgen | |
| | | | | Ymestyn i weithredu mewn rhagor o leoliadau amgen |
| | | Dechrau cynnal oriau agor estynedig i gynyddu nifer yr eisteddiadau. | | |
| | | | | Ymestyn yr oriau agor estynedig ymhellach i gefnogi'r broses adfer |
| **Technoleg** | Profi nodwedd recordio newydd ar Blatfform Fideo'r Cwmwl (CVP) yn yr awdurdodaethau Sifil a Theulu | | | |
| | Cyflwyno nodwedd recordio'r CVP yn y tribiwnlysoedd, gan alluogi mwy o ddefnydd o'r CVP ar draws yr holl leoliadau tribiwnlys | | | |
| | Sicrhau bod gan dros 70% o'n staff fynediad at liniaduron, gan alluogi iddynt weithio o adref | | | |
| | Ymestyn cynlluniau peilot Hawliadau Arian Sifil Ar-lein i 11 o lysoedd sirol ychwanegol | | | |
| | | Cwblhau'r broses o gyflwyno CVP yn yr holl lysoedd ynadon a llysoedd y Goron | | |
| | | Sicrhau bod CVP ar gael yn ehangach ar draws yr awdurdodaethau Sifil a Theulu | | |
| | | Cyflwyno cynllun peilot gwasanaeth gwrandawiadau fideo GLITEM (rhan o'r Rhaglen Ddiwygio) yn Siambrau Treth ac Eiddo'r Tribiwnlys | | |
| | | | | Cyflwyno'r system rheoli achosion ar-lein newydd ar gyfer y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a fydd yn disodli'r system Ethos. Bydd y broses yn cael ei llywio gan y Rhaglen Ddiwygio. |
| | | | | Cyflwyno gwasanaeth ar-lein dechrau i ddiwedd ar gyfer hawliadau Credyd Cynhwysol ym maes SSCS. Bydd y broses yn cael ei llywio gan y Rhaglen Ddiwygio. |
| | | | | Cyflwyno'r gwasanaeth cyfraith gyhoeddus ar-lein newydd fel y gallwn brosesu achosion gofal a goruchwylio ar-lein. Bydd y broses yn cael ei llywio gan y Rhaglen Ddiwygio. |
| **Capasiti o ran pobl** Y farnwriaeth, staff ac adrannau | Cynyddu lefelau staffio i sicrhau capasiti ar gyfer gwrandawiadau o bell, oriau gweithredu estynedig a gweithredu o leoliadau newydd | | | |
| | Mwyhau capasiti barnwrol, yn cynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o farnwyr sy'n derbyn ffi | | | |
| | Ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar y gallu i gynyddu nifer y gwrandawiadau wrth inni gynyddu capasiti | | | |
| | | | Cefnogi'r farnwriaeth lle bo'n briodol i adolygu blaenoriaethau rhestru'r busnes | |
| | | | Ailddechrau cynnal achosion meddiannu yn dilyn yr arhosiad presennol | |
| | | | Codi'r ataliad presennol ar feiliaid a gorfodi troseddol | |

# Mae ein dull yn adlewyrchu'r heriau a wynebir ym mhob awdurdodaeth

## Troseddol

Effeithiodd y pandemig Covid-19 yn neilltuol ar Lys y Goron oherwydd yr heriau o ran cynnal treialon rheithgor wrth gynnal trefniadau cadw pellter cymdeithasol, er rydym wedi ailddechrau cynnal y rhain lle bo'n ddiogel gwneud hynny. Bydd angen camau mwy radical i ddychwelyd i'n capasiti cyn COVID-19 a dechrau lleihau nifer yr achosion sydd heb eu cwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo a fydd yn ein helpu i ddychwelyd i gapasiti llawn yn y Llysoedd Ynadon

### Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar:

- Ailddechrau cynnal treialon rheithgor mewn mwy a mwy o lysoedd bob wythnos
- Parhau i baratoi achosion yn drylwyr fel y gellir datrys achosion yn gyflym heb gynnal treial llawn pan fo hynny er lles cyfiawnder
- Parhau i gynyddu nifer yr achosion sy'n cael eu rhestru yn y Llysoedd Ynadon i wrando ystod llawn o waith yn unol â'r arweiniad ar restru a gyhoeddwyd gan y farnwriaeth

## Sifil

Mae derbyniadau yn y maes sifil wedi lleihau yn sylweddol, oherwydd bod llawer o'r sawl sy'n gwneud hawliadau mewn swmp (yn aml iawn cwmnïoedd cyfleustodau sy'n mynd ar ôl biliau heb eu talu) wedi gohirio eu gweithgareddau. Mae cyfraddau cwblhau hefyd wedi lleihau wrth inni leihau nifer y gwrandawiadau wyneb yn wyneb, er bod miloedd o wrandawiadau dros y ffôn a thrwy fideo wedi'u cynnal. Mae'r Llys Busnes ac Eiddo wedi cynnal ei berfformiad gweinyddol trwy gydol y cyfnod hwn a nid oes ôl-gronni y tu hwnt i'r amseroedd cwblhau arferol.

### Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar:

- Cynyddu nifer yr achosion sy'n cael eu rhestru ar draws y llysoedd sirol
- Profi'r defnydd o Blatfform Fideo'r Cwmwl fel ei fod yn weithredol yn yr holl lysoedd erbyn diwedd mis Gorffennaf
- Gweithio gyda'r farnwriaeth, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a chynrychiolwyr o'r Drydydd Sector i gynllunio ar gyfer ailddechrau cynnal achosion meddiannu ym mis Awst
- Trosglwyddo rhai asesiadau costau i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yn dilyn ymgynghoriad)

## Teulu

Yn y maes Teulu, roedd yr achosion yr oedd y brys mwyaf ynglŷn â hwy yn parhau i gael eu cynnal, trwy bwy bynnag dull oedd ei angen. Mae ymchwil wedi cyfarwyddo ymarfer o ran pa achosion y gellir cyfiawnhau eu cynnal o bell, a pha rai y mae'n angenrheidiol bod rhai partïon neu'r holl bartïon yn mynychu'n bersonol.

### Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar:

- Cynyddu capasiti ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb fel bod achosion cymhleth sy'n destun anghydfod nad ydynt yn addas i'w gwrando o bell yn cael ei gwrando. Gall y gwrandawiadau hyn fod yn rhai lle bydd pawb yn mynychu'n bersonol, neu rhai 'cymysg' (lle bydd rhai partïon yn mynychu'n bersonol a rhai yn mynychu o bell) i gefnogi trefniadau cadw pellter cymdeithasol
- Annog defnyddio sianeli ar-lein ar gyfer ceisiadau Profiant ac Ysgaru lle bo'n bosibl

## Tribiwnlysoedd

Mae llawer o dribiwnlysoedd wedi symud i weithio ar-lein a chynnal gwrandawiadau fideo fel rhan o'n hymateb parhaus i sicrhau mynediad at gyfiawnder ar gyfer ein holl ddefnyddwyr, sydd wedi lleihau effaith y feirws. Er enghraifft, mae ein diwygiadau yn y Siambr Mewnfudo a Lloches wedi galluogi'r holl bartïon i weithio ar-lein.

### Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar:

- Cyflymu diwygiadau oedd eisoes wedi'u cynllunio a fydd yn helpu i reoli achosion yn fwy effeithiol yn ystod yr achos Covid-19 yn y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth
- Defnyddio trefniadau hyblyg a gyflwynwyd ar gyfer y Tribiwnlysoedd trwy reolau dros dro a chyfarwyddiadau ymarfer mewn argyfwng a weithredwyd gan yr Uwch Lywydd.

  Mae hyn yn cynnwys aseinio barnwyr ar draws lleoliadau gwahanol yn y tribiwnlys haen gyntaf, darpariaethau sy'n ymwneud â recordio a gwrandawiadau o bell a darpariaethau ar gyfer penderfynu ar ragor o apeliadau yn seiliedig ar y papurau yn unig.
- efydlu cynllun peilot o wasanaeth gwrandawiadau fideo GLlTEM yn Siambrau Treth ac Eiddo y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**Mae'r farnwriaeth wedi cyhoeddi cyngor ac arweiniad ar draws yr holl awdurdodaethau mewn ymateb i'r pandemig yma, yn cynnwys blaenoriaethau rhestru a chyfarwyddiadau ymarfer newydd**

## **Cam 3:** Cwblhau’r broses adfer ac edrych i’r dyfodol

Mae trydydd cam ein hymateb yn canolbwyntio ar gwblhau’r broses adfer. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi ar sail yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma gyda’n hymateb i’r pandemig Covid-19 er mwyn adeiladu gwydnwch ychwanegol o fewn ein model gweithredu. Mae’r pandemig Covid-19 wedi atgyfnerthu pwysigrwydd y Rhaglen Ddiwygio a moderneiddio’r system gyfiawnder, oherwydd mae’r gwasanaethau hynny sydd eisoes wedi cael eu moderneiddio wedi profi eu bod yn fwy cadarn wrth wynebu’r heriau.

Byddwn yn parhau i weithredu’r amrywiaeth eang o fesurau i ddelio a rhagor o waith a gwrando rhagor o achosion na’r nifer sy’n dod i mewn, er mwyn lleihau ôl-groniadau a’r amseroedd aros i lefel gynaliadwy. Mae hyn yn debygol o ddigwydd ar adegau gwahanol ar gyfer awdurdodaethau gwahanol.

Byddwn hefyd yn edrych i’r dyfodol – mae natur ddigynsail yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn wedi gofyn inni fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio heb y gwaith paratoi a fyddai’n digwydd fel arfer, a hynny dan amgylchiadau nad ydynt wedi’u profi yn flaenorol. Mae arnom angen parhau i sicrhau bod y dechnoleg a gyflwynwyd neu a ymestynnwyd yn ddiweddar yn gweithio’n effeithiol ar gyfer pawb sy’n cymryd rhan mewn achosion llys neu dribiwnlys. Mae’n amlwg y bydd rhaid newidiadau yn rhai dros dro a byddant yn dod i ben ar derfyn y pandemig, tra gall eraill fod yn ddefnyddiol yn y tymor hir. Byddwn:

- Yn gwrando ar adborth gan farnwyr, staff a defnyddwyr i wella’r ffordd rydym yn gweithio yn y tymor byr, a chasglu data a thystiolaeth arall i’n helpu i wella’n barhaus. Mae arolygon a gynhaliwyd yn dilyn wythnosau cyntaf y pandemig eisoes wedi arwain at rywfaint o addasiadau.
- Gyda’r farnwriaeth, byddwn yn adolygu’r mesurau bu inni roi mewn lle i ymateb i Covid-19 i adnabod pa rai ohonynt y dylid eu mabwysiadu a/neu eu haddasu ar sail tymor hir. Bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn unol â’u cyfrifoldebau statudol er mwyn llywodraethu, ariannu a gweithredu GLlTEM yn effeithiol.

Mae Rhaglen Ddiwygio’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd yn parhau i gael ei gweithredu ochr yn ochr â’r ymateb i’r pandemig. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn helpu i gyfarwyddo camau nesaf y broses foderneiddio, gan adeiladu ar egwyddorion a chynlluniau presennol a gwneud y defnydd gorau o’r gwaith anhygoel sydd wedi’i wneud i gadw’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd yn rhedeg, er budd cyfiawnder, trwy gydol y pandemig.

# **Atodiad:** rhagor o wybodaeth

Mae'r farnwriaeth wedi cyhoeddi cyngor ac arweiniad ar draws yr holl awdurdodaethau mewn ymateb i'r pandemig yma, yn cynnwys blaenoriaethau rhestru a chyfarwyddiadau ymarfer newydd.

Er tryloywder, mae'r Wybodaeth Reoli* a ddefnyddir gan GLlTEM i asesu lefel y baich gwaith ac amseroldeb gwaith ar lefel genedlaethol yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19) yn cael ei chyhoeddi.

Yn yr wythnosau i ddod, bydd yr holl lysoedd a thribiwnlysoedd sydd yn parhau i fod ar gau yn ailagor. Mae adnodd tracio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i ddangos pa adeiladau sydd ar agor. Mae pob safle wedi bod yn destun asesiad risg trylwyr i sicrhau ei fod yn ddiogel i weithredu yno yn ystod y pandemig Covid-19.

Rydym yn cynllunio i agor llysoedd dros dro ychwanegol i gynyddu ein capasiti a byddwn yn cyhoeddi'r manylion maes o law.

Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau manylach ar gyfer y llysoedd troseddol, yr awdurdodaethau sifil a theulu a'r tribiwnlysoedd yn y wythnosau i ddod. Bydd y rhain ar gael ar gov.uk. Rydym hefyd yn adolygu mesurau a'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi'n effeithiol i sicrhau eu bod yn cael mynediad at wasanaethau ac yn gallu cymryd rhan mewn gwrandawiadau yn llawn. Bydd y cynllun gweithredu hwn hefyd ar gael ar gov.uk.

*Mae gwybodaeth reoli yn cael ei chymryd o'n systemau i gyfarwyddo penderfyniadau gweithredu dyddiol. Nid yw'r wybodaeth hon yr un peth ag ystadegau swyddogol, sy'n destun safonau gwerthuso llymach.

Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM